Lefel 4

MEINI PRAWF CYMERADWYO

Lleoli Oedolion/ Cysylltu Bywydau

CHWEFROR 2020

Cynnwys

	Rhif tudalen
Cyflwyniad	1
Strwythur y cymhwyster	2
Nodau ac amcanion y pwnc	3
Cynnwys y pwnc	3
Cynllun asesu	4
Canlyniadau	5
Cyflwyno cymwysterau i'w cymeradwyo	5
Gofynion rhesymegol	6
Gofynion gweithredol	6
Atodiad A	9

Mae hon yn **Ddogfen Reoleiddio** o dan **Amod B7** o'r *Amodau Cydnabod Safonol (Hydref 2018)*[1]*: Cydymffurfio â Dogfennau Rheoleiddio.*

[1] https://www.qualificationswales.org/cymraeg/cyhoeddiadau/amodau-cydnabod-safonol/

Cyflwyniad

Mae'r ddogfen hon yn nodi'r meini prawf cymeradwyo ar gyfer y cymhwyster Lefel 4 Lleoli Oedolion / Cysylltu Bywydau. Datblygwyd y rhain drwy ymgysylltu â rhanddeiliaid, a oedd yn cynnwys grwpiau ffocws ac arolygon ar-lein. Mae'r meini prawf cymeradwyo hyn yn cynnwys y gofynion y mae'n rhaid i gorff dyfarnu eu bodloni wrth ddatblygu'r fanyleb a deunyddiau asesu ar gyfer y cymhwyster Lefel 4 Lleoli Oedolion / Cysylltu Bywydau.

Nod y cymhwyster hwn yw datblygu gwybodaeth, dealltwriaeth, ymddygiad a sgiliau gweithwyr sy'n gyfrifol am gefnogi lleoliadau/trefniadau cysylltu bywydau a Gofalwyr Lleoli Oedolion/Cysylltu Bywydau.

Datblygwyd y cymhwyster hwn mewn cydweithrediad agos â rhanddeiliaid sector allweddol, gan gynnwys Gofal Cymdeithasol Cymru ac Addysg a Gwella Iechyd Cymru (HEIW).

Cynlluniwyd y cymhwyster hwn i'w ddarparu gan ystod o ddarparwyr addysg, gan gynnwys addysg mewn gweithle, addysg bellach ac addysg uwch, ar gyfer dysgwyr sy'n 18 oed ac yn hŷn.

Lle bo'n briodol, dylai'r cymhwyster hwn alluogi dysgwyr i ddatblygu sgiliau trosglwyddadwy, gan gynnwys cyfathrebu, llythrennedd, cymhwysedd digidol a rhifedd.

Bydd y meini prawf cymeradwyo yn y ddogfen hon yn dod i rym o fis Ionawr 2020 ac yn cael eu hadolygu yn 2022.

Ym mis Mawrth 2017, cyhoeddodd Cymwysterau Cymru benderfyniad i gyfyngu ar gyfres newydd o gymwysterau ym maes Iechyd a Gofal Cymdeithasol, a Gofal Plant[2] ar gyfer addysgu ar raglenni dysgu a ariennir yn gyhoeddus yng Nghymru. Mae'r gyfres hon yn cynnwys y cymhwyster Lefel 4 Lleoli Oedolion / Cysylltu Bywydau.

Bydd yr holl gymwysterau yn y gyfres yn cael eu cyfyngu i un ffurf yn unig ar gyfer pob cymhwyster am gyfnod o bum mlynedd. Ar gyfer y cymhwyster hwn, bydd y cyfnod yn dechrau ar 1 Medi 2020. Mae hyn yn golygu mai dim ond un corff dyfarnu gaiff ddyfarnu pob cymhwyster. Ar ôl proses gaffael deg a thryloyw a gynhaliwyd rhwng Ionawr 2017 ac Awst 2017, mae Cymwysterau Cymru wedi contractio gyda chonsortiwm o City & Guilds of London Institute a CBAC i ddatblygu a chyflwyno'r holl gymwysterau yn y gyfres ar y cyd.

[2] http://qualificationswales.org/media/2535/230517-determination-to-restrict-hsc-final-e.pdf

Bydd Cymwysterau Cymru ond yn cymeradwyo cymhwyster sy'n bodloni'r holl ofynion a nodir yn y ddogfen hon ynghyd â'r rhai a nodir yn yr *Amodau Cydnabod Safonol*[3]. Wrth ddatblygu cymwysterau i fodloni'r gofynion hyn mae'n rhaid i gyrff dyfarnu ystyried *Mynediad Teg drwy Ddylunio*[4]. Rhaid i'r corff dyfarnu a gomisiynir hefyd fodloni'r holl ofynion a nodir yn y contract consesiynau a ddyfarnwyd yn ystod y camau datblygu, cymeradwyo, gweithredu a chyflwyno'r cymhwyster.

Pan fo gofynion y Meini Prawf Cymeradwyo Pwnc a nodir yn y ddogfen hon yn wahanol i'r rhai a ragnodir yn yr Amodau Cydnabod Safonol, bydd y gofynion yn y ddogfen hon yn cael blaenoriaeth.

Strwythur a chynllun y cymhwyster

1. Rhaid i'r fanyleb ar gyfer Lefel 4 Lleoli Oedolion / Cysylltu Bywydau gynnig ardystiad cymhwyster i ddysgwyr gyda Chyfanswm Amser Cymhwyso (TQT) o 450 awr (45 credyd) a bydd angen ei ddiffinio yn nhermau Oriau Dysgu dan Arweiniad (GLH).
2. Mae i'r cymhwyster Lefel 4 Lleoli Oedolion / Cysylltu Bywydau gynnwys gorfodol (Grŵp A) a chynnwys dewisol (Grŵp B) (gweler Atodiad A).
3. Rhaid grwpio'r cynnwys dewisol (Grŵp B) yn dri llwybr cymeradwy:
   - 3.1. Datblygu Dealltwriaeth o Ddementia;
   - 3.2. Datblygu Dealltwriaeth o Anabledd Dysgu ac Awtistiaeth; a
   - 3.3. Datblygu Dealltwriaeth o Salwch Meddwl.
4. Rhaid i'r teitl cymhwyster sy'n ymddangos ar dystysgrifau fod fel a ganlyn:

Lefel 4 Lleoli Oedolion / Cysylltu Bywydau

5. Rhaid i ddyluniad Lefel 4 Lleoli Oedolion / Cysylltu Bywydau sicrhau y caiff nodau ac amcanion y pwnc eu hadlewyrchu yn yr asesiadau er mwyn galluogi dysgwyr i ddangos eu gwybodaeth, eu sgiliau a'u dealltwriaeth.
6. Rhaid i fanyleb Lefel 4 Lleoli Oedolion / Cysylltu Bywydau nodi unrhyw reolau cyfuno sy'n berthnasol i'r unedau dewisol.

[3] https://qualifications.wales/cymraeg/ein-gwaith/rheoleiddio-cyrff-dyfarnu/monitro-cyrff-dyfarnu/
[4] https://www.qualificationswales.org/cymraeg/cyhoeddiadau/mynediad-teg-drwy-ddylunio/

Nodau ac amcanion y pwnc

7. Rhaid i Lefel 4 Lleoli Oedolion / Cysylltu Bywydau alluogi dysgwyr i ddatblygu ac arddangos eu gwybodaeth, eu dealltwriaeth, eu hymddygiad, eu sgiliau a'u hymarfer o fewn cyd-destun eu harbenigedd dewisedig. Yn benodol, dylai dysgwyr allu dangos eu bod yn:

    7.1. datblygu a chymhwyso gwybodaeth, dealltwriaeth a sgiliau fel gweithiwr Lleoli Oedolion / Cysylltu Bywydau;

    7.2. datblygu a chymhwyso gwybodaeth a dealltwriaeth o'r gofynion deddfwriaethol, rheoliadol a threfniadol sy'n berthnasol i rôl gweithiwr Lleoli Oedolion / Cysylltu Bywydau;

    7.3. datblygu a chymhwyso gwybodaeth a dealltwriaeth o sut i weithio gyda gofalwyr i gynnal a chyflawni canlyniadau ar gyfer unigolion o fewn rôl gweithiwr Lleoli Oedolion / Cysylltu Bywydau;

    7.4. datblygu fel dysgwyr effeithiol ac annibynnol, ac fel meddylwyr beirniadol a myfyriol sydd â meddyliau chwilfrydig yng nghyd-destun eu rôl fel gweithiwr Lleoli Oedolion / Cysylltu Bywydau;

    7.5. defnyddio dull chwilfrydig a beirniadol i wahaniaethu rhwng ffeithiau a barn; ffurfio dadleuon a llunio barn wybodus yng nghyd-destun eu rôl fel gweithiwr Lleoli Oedolion / Cysylltu Bywydau;

    7.6. datblygu hunanymwybyddiaeth er mwyn gwella arferion yn eu rôl fel gweithiwr Lleoli Oedolion / Cysylltu Bywydau;

    7.7. datblygu gwybodaeth a dealltwriaeth o ddulliau sy'n canolbwyntio ar unigolion/plant o fewn eu rôl fel gweithiwr Lleoli Oedolion / Cysylltu Bywydau;

    7.8. defnyddio sgiliau llythrennedd, rhifedd a chymhwysedd digidol fel sy'n briodol o fewn eu rôl.

Cynnwys y pwnc

8. Mae'n rhaid i gynnwys manyleb Lefel 4 Lleoli Oedolion / Cysylltu Bywydau adlewyrchu nodau ac amcanion y pwnc.

9. Rhaid i fanyleb Lefel 4 Lleoli Oedolion / Cysylltu Bywydau gynnwys y cynnwys gorfodol (Grŵp A) a bennir yn Atodiad A.

10. Rhaid i fanyleb Lefel 4 Lleoli Oedolion / Cysylltu Bywydau gynnwys y llwybrau canlynol:

    10.1 Datblygu Dealltwriaeth o Ddementia;

    10.2 Datblygu Dealltwriaeth o Anabledd Dysgu ac Awtistiaeth; a

    10.3 Datblygu Dealltwriaeth o Salwch Meddwl.

11. Nodir y cynnwys ar gyfer pob llwybr yn Atodiad A (Grŵp B).

Cynllun asesu

12. Asesir Lefel 4 Lleoli Oedolion / Cysylltu Bywydau drwy:

    12.1 bortffolio o dystiolaeth;

    12.2 arsylwi ar ymarfer;

    12.3 cofnod myfyriol; a

    12.4 thrafodaeth broffesiynol.

13. Rhaid i bob asesiad (y manylir arnynt ym mharagraff 12) ymdrin â chyfran sylweddol o'r cynnwys. Ar gyfer pob llwybr, rhaid cwmpasu'r holl gynnwys gorfodol a ddisgrifir yng Ngrŵp A, a'r cynnwys ar gyfer y llwybr dewisedig a ddisgrifir yng Ngrŵp B, ar draws yr asesiadau. Wrth gyflwyno'r cymhwyster i'w gymeradwyo, bydd yn ofynnol i'r corff dyfarnu ddarparu rhesymeg sy'n esbonio ei ddull o benderfynu pa gynnwys sy'n dod o dan ba gydran asesu.

14. Rhaid i'r fanyleb nodi math a maint y dystiolaeth i'w chasglu at ddibenion asesu.

15. Rhaid i'r cymhwyster fod yr un mor heriol i bob dysgwr, ni waeth pa unedau a ddilynwyd.

16. Rhaid i'r cynllun asesu sicrhau:

    16.1 bod y meini prawf a'r gofynion ar gyfer yr ymarfer a gynhaliwyd, a'r trefniadau ar gyfer asesu'r ymarfer hwn, wedi'u nodi'n glir;

    16.2 bod unrhyw amodau a ganiateir ar gyfer cynnal asesiadau drwy efelychu wedi'u nodi'n glir, gan gynnwys enghreifftiau o amgylchedd gwaith realistig.

17. Rhaid dangos tystiolaeth o'r holl ganlyniadau dysgu ar gyfer y cynnwys dewisol drwy'r asesiadau.

18. Rhaid i'r meini prawf marcio ddangos sut mae pob agwedd ar asesu yn ymwneud â'r canlyniadau dysgu.

19. Rhaid bod cyfleoedd asesu ar gyfer Lefel 4 Lleoli Oedolion / Cysylltu Bywydau ar gael drwy gydol y flwyddyn.

20. Rhaid i fanyleb Lefel 4 Lleoli Oedolion / Cysylltu Bywydau gynnwys manylion am gyfleoedd i ailgyflwyno.

Canlyniadau

21. Bydd dysgwyr sy'n cwblhau'r holl asesiadau gofynnol yn llwyddiannus (gan fodloni unrhyw reolau cyfuno) yn cael eu hardystio.

22. Rhaid i'r teitl cymhwyster sy'n ymddangos ar dystysgrifau gynnwys enw'r llwybr ardystiedig mewn cromfachau. (Gweler meini prawf cymeradwyo 3.)

Cyflwyno cymwysterau i'w cymeradwyo

23. Wrth gyflwyno cymhwyster i Cymwysterau Cymru i'w gymeradwyo, rhaid i'r corff dyfarnu ddarparu:

    23.1 dogfen fanyleb;

    23.2 ystod gynrychioliadol o ddeunyddiau asesu enghreifftiol, sy'n dangos amrywiaeth o lwybrau cymharol;

    23.3 dogfen esboniadol (dogfen resymeg) sy'n amlinellu'r rhesymeg y tu ôl i brif nodweddion cynllunio'r cymhwyster a gynigir a sut maen nhw'n alinio â chasgliadau Adolygiad y Sector o Gymwysterau a'r System Gymwysterau ym maes Iechyd a Gofal Cymdeithasol, gan gynnwys gofal plant a gwaith chwarae[5]

[5] https://qualifications.wales/cymraeg/cymwysterau/cymwysterau-galwedigaethol/adolygiadau-sector/iechyd-gofal-cymdeithasol-a-gofal-plant/

Gofynion rhesymegol

24. Pwrpas y ddogfen resymeg yw cefnogi'r broses o adolygu a chymeradwyo cymwysterau ac ni fwriedir iddi gael ei chyhoeddi.

25. Rhaid i'r ddogfen resymeg gynnwys esboniad dros:

    25.1 strwythur y cymhwyster, gan esbonio'r rhesymau dros y ffordd y mae'r cynnwys wedi'i strwythuro;

    25.2 y dull o ddatblygu tasgau;

    25.3 y strwythur asesu, gan gynnwys, lle y bo'n briodol, nifer, dyraniad y marciau a hyd yr asesiadau;

    25.4 y cyfleoedd asesu sydd ar gael a'r dull o sicrhau bod y cyfleoedd hynny ar gael drwy gydol y flwyddyn;

    25.5 dehongli'r canlyniadau dysgu a sut maen nhw'n berthnasol i'r gwahanol gydrannau asesu;

    25.6 dyluniad deunyddiau a chanllawiau asesu enghreifftiol, gan gynnwys y math a'r ystod o dasgau asesu ar draws y cymhwyster a'u perthynas â'r canlyniadau dysgu;

    25.7 sut y caiff y meini prawf marcio eu dylunio a'u cymhwyso;

    25.8 sut mae'r cymhwyster yn adlewyrchu cyd-destun Cymreig;

    25.9 y broses a ddefnyddir i ddyfarnu'r cymwysterau hyn yn gyson ac i'r lefel briodol, gan gynnwys y broses ar gyfer gosod a chynnal safonau;

    25.10 y broses a ddefnyddir i ddyfarnu'r cymhwyster, gan gynnwys y rhesymeg ar gyfer y ffin basio/methu arfaethedig wrth asesu a dyfarnu'r cymhwyster.

Gofynion gweithredol

26. Rhaid i'r fanyleb a/neu'r wybodaeth ategol nodi'r gofynion o ran gwybodaeth a chymhwysedd (pwnc ac asesu/sicrhau ansawdd) ar gyfer aseswyr, ac aswirwyr ansawdd mewnol ac aswirwyr ansawdd allanol, sy'n briodol ar gyfer cymhwyster ar y lefel hon.

27. Rhaid i fanyleb y cymhwyster gynnwys manylion penodol am y gofynion gweithredol, gan gynnwys:

    27.1 cofrestriadau;

    27.2 sicrwydd ansawdd;

    27.3 prosesau asesu allanol.

Rhagor o wybodaeth	Dylid cyfeirio ymholiadau ynghylch y ddogfen hon at: Ymholiadau Qualifications Wales Adeilad Q2 Lôn Pencarn Imperial Park Coedcernyw Casnewydd NP10 8AR Enquires@qualificationswales.org

Atodiad A - Lefel 4 Lleoli Oedolion / Cysylltu Bywydau

Rhaid i fanyleb Lefel 4 Lleoli Oedolion / Cysylltu Bywydau gynnwys y cynnwys a'r canlyniadau dysgu canlynol: Mae hyn yn cyfrif am 100% o gyfanswm cynnwys a chanlyniadau dysgu'r cymhwyster.

Grŵp A: Cynnwys gorfodol

Bydd y cynnwys canlynol yn ffurfio cynnwys ymarfer gorfodol y cymhwyster Lefel 4 Lleoli Oedolion / Cysylltu Bywydau.

Meysydd Pwnc	Canlyniadau Dysgu
1. Darparu cymorth ar gyfer gofalwyr Lleoli Oedolion / Cysylltu Bywydau	1.1. Deall rôl gwasanaethau Lleoli Oedolion / Cysylltu Bywydau 1.2. Cefnogi'r broses o recriwtio, asesu a chymeradwyo gofalwyr Lleoli Oedolion / Cysylltu Bywydau 1.3. Cefnogi'r trefniant lleoli rhwng unigolion a gofalwyr 1.4. Cefnogi gofalwyr i ddarparu lleoliadau/trefniadau Lleoli Oedolion / Cysylltu Bywydau 1.5. Datblygu cydberthnasau gwaith cadarnhaol 1.6. Arwain a rheoli cydymffurfiaeth â gofynion deddfwriaethol, rheoleiddiol a threfniadol ar gyfer diogelu unigolion 1.7. Datblygu a chynnal gwybodaeth a dealltwriaeth y gofalwr o ran diogelu unigolion 1.8. Arwain arferion sy'n cynorthwyo gofalwyr i ddiogelu unigolion rhag niwed a chamdriniaeth 1.9. Arwain arferion sy'n cefnogi hawliau, lles a chydberthnasau cadarnhaol i hyrwyddo diogelu 1.10. Arwain a chefnogi arferion sy'n galluogi unigolion i gadw eu hunain yn ddiogel 1.11. Cynnal a diweddaru eu datblygiad proffesiynol parhaus eu hunain i adlewyrchu arfer gorau

Grŵp B: Cynnwys y llwybr

Bydd y cynnwys canlynol yn ffurfio cynnwys y llwybrau ar gyfer y cymhwyster Lefel 4 Lleoli Oedolion / Cysylltu Bywydau.

Meysydd Pwnc	Canlyniadau Dysgu
2. Datblygu dealltwriaeth o ddementia;	2.1. Datblygu dealltwriaeth o safbwyntiau a chanfyddiadau o ddementia 2.2. Sut i gefnogi dealltwriaeth gofalwyr o ddulliau sy'n seiliedig ar hawliau, cydberthnasau cadarnhaol a chyfranogiad cymunedol
3. Datblygu dealltwriaeth o anabledd dysgu ac awtistiaeth	3.1. Datblygu dealltwriaeth o safbwyntiau a chanfyddiadau o anabledd dysgu ac awtistiaeth 3.2. Sut i gefnogi dealltwriaeth gofalwyr o ddulliau sy'n seiliedig ar hawliau, cydberthnasau cadarnhaol a chyfranogiad cymunedol 3.3. Cefnogi cyfathrebu effeithiol 3.4. Cefnogi dealltwriaeth gofalwyr o rywioldeb ac iechyd rhywiol 3.5. Cefnogi dealltwriaeth gofalwyr o gyflyrau iechyd a phwysigrwydd archwiliadau iechyd
4. Datblygu dealltwriaeth o salwch meddwl	4.1. Datblygu dealltwriaeth o ganfyddiadau a safbwyntiau am salwch meddwl 4.2. Datblygu dealltwriaeth o ddulliau sy'n seiliedig ar hawliau, cydberthnasau cadarnhaol a chyfranogiad cymunedol 4.3. Datblygu dealltwriaeth o driniaeth a chymorth ar gyfer adfer 4.4. Iechyd meddwl a chamddefnyddio sylweddau sy'n cyd-ddigwydd 4.5. Cefnogi gofalwyr i ddeall sut i reoli sefyllfaoedd o argyfwng